


Beicffordd 1.2

Dyddiadau Adeiladu wedi'i Gynllunio

Mae'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer gwaith ar y feicffordd fel a ganlyn:



Mae'r dyddiadau uchod ar gyfer prif gamau'r gwaith. Gallai gwaith ar raddfa lai fel gwaith galluogi, gosod y safle a gwriadau cyfleustodau ddigwydd y tu allan i'r dyddiadau

Beicffordd 1.2

Dyluniad wedi'i Ddiweddarau: Ardal
5/6

Mae'r newidiadau isod wedi'u gwneud i ddyluniad y feicffordd:

- 1 Newid:** Newidiwyd rhan o'r llwybr i feicffordd dros dro.
Rheswm: Oherwydd y sgaffaldiau ar yr ysgol a'r llyfrgell, ni ellir adeiladu'r rhan hon yn llawn. Bydd cynllun llawn yn cael ei roi ar waith unwaith y bydd y sgaffaldiau'n cael eu tynnu.
- 2 Newid:** Newidiwyd y Ffordd Osgoi ar gyfer Bysus i Ffin Bysus Defnydd a Rennir.
Rheswm: Trwy ddadansoddi'r cynllun ymhellach a dysgu o gynlluniau eraill, sylweddolwyd bod angen lonydd â lled mwy er mwyn galluogi bysus i symud trwy'r ardaloedd hyn. Oherwydd lled ychwanegol y lonydd, nid oes digon o le i ddefnyddio trefniant ffordd osgoi ar gyfer bysus. Mae'r newid i ffin bysus yn cydymffurfio â Chanllawiau Dylunio Teithio Llesol.
- 3 Newid:** Tynnu croesfan feicio a gosod beicffordd ar yr ochr Dde-orllewinol i'r heol (ar y ffordd allan), a chysylltiad defnydd a rennir wrth gyffordd Allensbank Road.
Rheswm: Mae gwaith dylunio pellach a materion ar y safle wedi dangos na all y groesfan yng nghanol y ffordd weithio gyda'r systemau goleuadau traffig wrth y cyffyrdd. Gwnaed y newidiadau hyn i symleiddio'r trefniant a darparu mwy o le ar gyfer bysus.

